# Darparu tystiolaeth am 25% o amser ychwanegol mewn colegau

O fis Medi 2025 ymlaen, rhaid ychwanegu samplau o dystiolaeth at geisiadau am 25% o amser ychwanegol at ddibenion archwilio:

- sampl o bapurau profion mewnol, ffug arholiadau mewn pynciau perthnasol yn dangos enghreifftiau o ddefnyddio'r 25% o amser ychwanegol;
- sylwadau ac arsylwadau gan staff addysgu mewn pynciau perthnasol yn nodi pam y mae angen 25% o amser ychwanegol ar yr ymgeisydd a sut y mae ef/hi'n defnyddio'r 25% o amser ychwanegol hwnnw.

Mae'r gofynion hyn yn berthnasol i'r cymwysterau fel y'u rhestrir ar glawr blaen dogfen Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol y CGC 2025/26.
Mae'r ddogfen hon yn tynnu sylw at sut y gall colegau ddarparu tystiolaeth am 25% o amser ychwanegol mewn ffordd ymarferol a theg.

Noder: Nid oes angen cyflwyno samplau o waith sy'n dangos tystiolaeth o egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth. Os oes gan ymgeisydd amhariad nad yw'n anhawster dysgu, e.e. cyflwr meddygol, a rhoddwyd 25% o amser ychwanegol yn hytrach nag egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth, byddai'r rhesymau dros yr angen am 25% o amser ychwanegol yn cael eu nodi'n Rhan 1 o Ffurflen 9. Byddai'n cael ei esbonio bod egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth wedi cael ei archwilio a'i threialu ond wedi profi i fod yn aneffeithiol, ac nid yw'n briodol i anghenion y myfyriwr. Byddai hyn yn cael ei gefnogi gan adborth athrawon.

## gwyddor allweddol

Rhaid i'r tystiolaeth ddangos y ddau beth canlynol:

- yr angen am 25% o amser ychwanegol; **a**
- ffordd arferol y myfyriwr o weithio mewn tasgau ac asesiadau wedi'u hamseru.

**!** Mae hyn bob amser wedi bod yn ofynnol. Mae rheoliadau'r CGC 2025/26 yn gwneud y disgwyliadau hyn yn fwy penodol, gan sicrhau tegwch a chysondeb ar draws pob canolfan.

## Mathau derbyniol o dystiolaeth

Nid oes angen i golegau greu prosesau beichus ychwanegol. Dylid tynnu'r tystiolaeth o waith sy'n digwydd yn naturiol o fewn yr arfer addysgu ac asesu presennol. Dyma rai enghreifftiau:



- **Ffurflen syml wedi'i llenwi gan yr athro/athrawes** sy'n cadarnhau bod yr ymgeisydd wedi defnyddio amser ychwanegol mewn asesiad wedi'i amseru a sut defnyddiodd yr ymgeisydd yr amser ychwanegol hwnnw, e.e wedi cwblhau mwy o gwestiynau, wedi gwella neu ymestyn ei atebion.
- **Os ydynt ar gael, asesiadau wedi'u hamseru yn yr ystafell ddosbarth:** profion byr, rhannau o gyn-bapurau neu dasgau ysgrifenedig wedi'u hamseru gan newid lliw'r beiro neu'r ffont i ddangos yr ymgeisydd yn defnyddio ei amser ychwanegol
- **Os ydynt ar gael, papurau ffug arholiad**, gan newid lliw y beiro neu ffont i ddangos yr ymgeisydd yn defnyddio ei amser ychwanegol.

## Ystyriaethau ymarferol ar gyfer colegau

- **Myfyrwyr newydd ym mis Medi:**
  Lle mae myfyrwyr yn cyrraedd heb ddogfennau blaenorol, dylai colegau gasglu tystiolaeth ymlaen llaw trwy dasgau byr wedi'u hamseru yn yr ystafell ddosbarth ac adborth athrawon. Nid oes angen darparu tystiolaeth o ffug arholiadau llawn.
- **Amrywiaeth o gymwysterau:**
  Nid oes angen darparu tystiolaeth o bob pwnc a astudiwyd gan y myfyriwr. Mae sampl o feysydd perthnasol y cwricwlwm yn ddigonol.
- **Llwyth gwaith tiwtor:**
  Mae ymgorffori'r broses i'r arfer bresennol yn allweddol. Gellir casglu tystiolaeth wrth farcio neu drwy adborth profion ac asesiadau presennol.
- **Terfynau amser:**
  Ar gyfer cymwysterau gyda therfynau amser ym mis Hydref (e.e BTEC), dylai colegau flaenoriaethu casglu tystiolaeth fer, ymarferol. Mae prawf dosbarth syml, sy'n cynnwys nodyn ar gyfer yr amser ychwanegol sy'n cael ei ddefnyddio gan y myfyriwr, yn ddigonol. Gellir cyflwyno ceisiadau ar ôl y terfyn amser ar 21 Hydref.

# Ailddefnyddio tystiolaeth

## Ailsefyll arholiadau TGAU

- Gellir ailddefnyddio Ffurflenni 8 a 9 o ysgolion ar gyfer ailsefyll arholiadau TGAU heb unrhyw dystiolaeth bellach os ydynt wedi'u llenwi, eu llofnodi, eu dyddio ac yn achos Ffurflen 8 wedi'i hategu gan dystiolaeth o gymhwyster yr aseswr neu yn achos Ffurflen 9 wedi'i hategu gan dystiolaeth arbenigol/feddygol briodol neu CDU (Cymru), EHCP (Lloegr) neu Datganiad o anghenion addysgol arbennig (Gogledd Iwerddon).
- Pan mae dogfennaeth ar goll neu'n anghyflawn, rhaid casglu tystiolaeth newydd yn unol â'r egwyddorion uchod.

## Lefel 1/2 Cymwysterau Technegol Galwedigaethol (fel y'u cwmpesir gan reoliadau'r CGC)

- Gellir ailddefnyddio Ffurflenni 8 a 9 o ysgolion ar gyfer ailsefyll arholiadau TGAU heb unrhyw dystiolaeth bellach os ydynt wedi'u llenwi, eu llofnodi, eu dyddio ac yn achos Ffurflen 8 wedi'i hategu gan dystiolaeth o gymhwyster yr aseswr neu yn achos Ffurflen 9 wedi'i hategu gan dystiolaeth arbenigol/feddygol briodol neu CDU (Cymru), EHCP (Lloegr), neu Datganiad o anghenion addysgol arbennig (Gogledd Iwerddon).
- Nid oes angen cynnwys tystiolaeth o adborth athrawon.
- Gan fod y myfyriwr wedi symud ymlaen o gymwysterau TGAU i gwrs Lefel 1/2 gwahanol sydd ag arholiadau ysgrifenedig wedi'u hamserlennu, mae'n ddefnyddiol - ond nid yw'n angenrheidiol - cynnwys un neu ddwy o enghreifftiau o dystiolaeth asesu o'r cwrs newydd. Gallai hyn gynnwys pethau fel profion byr wedi'u hamseru yn yr ystafell ddosbarth neu ffug arholiadau, os ydynt ar gael, i ddangos bod y myfyriwr angen 25% o amser ychwanegol o hyd. Fodd bynnag, gellir defnyddio barn proffesiynol.

## Enghreifftiau o gymwysterau a'r dystiolaeth asesu sydd ei hangen

| Math o gymhwyster | Tystiolaeth asesu sydd ei hangen |
|---|---|
| Lefel 1 Sgiliau Swyddogaethol mewn Saesneg a/neu Fathemateg | Un darn o dystiolaeth asesu gydag adborth athrawon. |
| Lefel 2 Sgiliau Swyddogaethol mewn Saesneg a/neu Fathemateg | Un darn o dystiolaeth asesu gydag adborth athrawon. |
| Myfyriwr yn symud ymlaen o gymhwyster Lefel 1 Sgiliau Swyddogaethol Saesneg a/neu Fathemateg i gymhwyster Lefel 2 Sgiliau Swyddogaethol Saesneg a/neu Fathemateg | Nid oes angen adborth athrawon wedi'i ddiweddaru.<br><br>Nid oes angen tystiolaeth asesu wedi'i diweddaru. |
| Myfyriwr yn symud ymlaen o gymhwyster Lefel 1 neu Lefel 2 Sgiliau Swyddogaethol mewn | Nid oes angen adborth athrawon wedi'i ddiweddaru ond mae angen cynnwys tystiolaeth asesu wedi'i diweddaru. |
| Saesneg a/neu Fathemateg i gymhwyster TGAU Saesneg Iaith a/neu Fathemateg. | Un darn o dystiolaeth asesu sy'n ymwneud â'r cwrs TGAU a allai fod yn asesiad ystafell ddosbarth wedi'i amseru neu ffug arholiad, os yw ar gael. |

## Crynodeb

Nid yw'r gofynion hyn yn cynrychioli newid mewn prosesau, ond yn hytrach yn atgyfnerthu'r hyn a ddisgwyliwyd erioed: Mae ceisiadau am 25% o amser ychwanegol yn cael eu cefnogi gan dystiolaeth bod y myfyriwr ei angen a thystiolaeth o ffordd arferol y myfyriwr o weithio.